**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 886 (Cy.101)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *27 Mawrth 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 5(2), 6(3), 7(6) a 29(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999([1]) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) 2002 ac mae'n dod i rym ar 1 Ebrill 2002.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cynllun gwella" ("*improvement plan*") yw cynllun perfformiad gwerth gorau o fewn yr ystyr a briodolir i "best value performance plan" yn adran 6(1) o'r Ddeddf;

ystyr "dadansoddiad awdurdod cyfan" ("*whole authority analysis*") yw adolygiad gwerth gorau o holl swyddogaethau awdurdod gwerth gorau o fewn yr ystyr a briodolir i "best value reviews" yn adran 5 o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1999.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i awdurdodau gwerth gorau yng Nghymru ac eithrio'r awdurdodau hynny a bennir yn adran 1(1)(d) ac (e) o'r Ddeddf.

### Cyfnod cynnal dadansoddiadau

**2.** Rhaid i awdurdodau gwerth gorau gynnal dadansoddiad awdurdod cyfan erbyn 30 Mehefin 2003 a rhaid iddynt gynnal dadansoddiad awdurdod cyfan pellach cyn diwedd pob cyfnod o bum mlynedd wedi hynny.

### Dyddiad cyhoeddi cynlluniau gwella

**3.** Rhaid i awdurdodau gwerth gorau gyhoeddi eu cynllun gwella ar gyfer blwyddyn ariannol benodol erbyn 30 Mehefin yn ystod y flwyddyn y mae'r cynllun yn berthnasol iddi.

(**1**) 1999 p.27.

**Y dyddiad ar gyfer anfon copïau o adroddiadau archwilwyr**

**4.** Yn unol ag adran 7(5) o'r Ddeddf, rhaid anfon copïau o adroddiad archwilydd ynglyn â chynllun gwella erbyn 31 Hydref yn ystod y flwyddyn y mae'r cynllun yn berthnasol iddi.

**Diddymu**

**5.** Mae Gorchymyn Llywodraeth Leol (Gwerth Gorau) (Adolygiadau a Chynlluniau Perfformiad) (Cymru) 2000(**2**) drwy hyn yn cael ei ddiddymu.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*Rhodri Morgan*
Prif Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol

27 Mawrth 2002

(**2**) O.S. 2000/1271 (Cy. 97).
(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Rhan I o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 yn gosod dyletswydd i awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill gynnal adolygiadau gwerth gorau o'u swyddogaethau a llunio cynllun perfformiad gwerth gorau (yn y Gorchymyn hwn fe'u gelwir yn "gynlluniau gwella") ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Rhaid i awdurdodau yng Nghymru (ac eithrio awdurdod a bennir yn adran 1(1)(d) ac (e) o'r Ddeddf) adolygu eu holl swyddogaethau (yn y Gorchymyn hwn fe elwir adolygiad o'r fath yn "ddadansoddiad awdurdod cyfan") o fewn cyfnod penodol sydd i'w bennu mewn Gorchymyn sydd i'w wneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhaid i awdurdodau gyhoeddi eu cynlluniau gwella ar gyfer blynyddoedd ariannol penodol cyn y dyddiad a gaiff ei bennu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn. Rhaid i archwilwyr anfon copïau o'u hadroddiadau sy'n ymwneud â chynlluniau gwella o'r fath at yr awdurdodau perthnasol, y Comisiwn Archwilio ac, os yw'n ofynnol, at Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn y dyddiad a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu'r cyfnod ar gyfer cynnal adolygiadau. Mae'r Gorchymyn hefyd yn pennu dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid cyhoeddi cynlluniau awdurdodau ar gyfer blynyddoedd ariannol penodol a'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid anfon copïau o adroddiadau archwilwyr. Mae'r Gorchymyn hwn yn disodli Gorchymyn Llywodraeth Leol (Gwerth Gorau) (Adolygiadau a Chynlluniau Perfformiad) (Cymru) 2000, sy'n cael ei ddiddymu, a dylid darllen y Gorchymyn hwn ar y cyd â'r canllawiau a elwir "Wales Programme for Improvement: Guidance for Local Authorities" a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.